

DEDDF PRIFFYRDD 1980

**GORCHYMYN CEFNFFORDD CAER I
FANGOR (YR A55) (GWELLIANT AILALINIO
CYFFYRDD 16 AC 16A A'R FFYRDD YMUNO
AC YMADAEL) 202-**

A

**GORCHYMYN CEFNFFORDD CAER I
FANGOR (YR A55) (GWELLIANT AILALINIO
CYFFYRDD 16 AC 16A A'R FFYRDD YMUNO
AC YMADAEL) (FFYRDD YMYL) 202-**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud y Gorchmynion a ganlyn—

1. Gorchymyn o dan adran 10 o Ddeddf Priffyrrdd 1980 yn darparu y bydd:

- (1) darn o'r gefnffordd, sy'n dechrau wrth bwynt 291 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gylchfan newydd (wedi ei farcio ag A ar Blan Safle A y plan a adnewyd), ac sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain am bellter o 572 o fetrau, hyd at bwynt 293 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y Gyffordd 16 bresennol (Cylchfan y Puffin) (wedi ei farcio â B ar Blan Safle A y plan a adnewyd);
- (2) darn o'r gefnffordd, sy'n dechrau wrth bwynt 170 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gylchfan newydd (wedi ei marcio ag C ar Blan Safle A y plan a adnewyd), ac sy'n ymestyn tua'r de-orllewin am bellter o 150 o fetrau hyd at ei chyffordd â cherbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd wrth bwynt 277 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y Gyffordd 16 bresennol (Cylchfan y Puffin) (wedi ei farcio â D ar Blan Safle A y plan a adnewyd);
- (3) darn o'r gefnffordd, sy'n dechrau ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin wrth bwynt 308 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan newydd (wedi ei farcio ag E ar Blan Safle A y plan a adnewyd), ac sy'n ymestyn tua'r de-orllewin am bellter o 176 o fetrau, hyd at ei chyffordd â'r gylchfan newydd (wedi ei marcio ag F ar Blan Safle A y plan a adnewyd);
- (4) darn o'r gefnffordd, sy'n dechrau wrth bwynt 445 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd bresennol â Ffordd Glan-yr-afon (wedi ei farcio ag A ar Blan Safle B y plan a adnewyd), ac sy'n ymestyn tua'r gogledd-

THE HIGHWAYS ACT 1980

**THE CHESTER TO BANGOR TRUNK ROAD
(A55) (JUNCTIONS 16 AND 16A
IMPROVEMENT REALIGNMENT AND SLIP
ROADS) ORDER 202-**

AND

**THE CHESTER TO BANGOR TRUNK ROAD
(A55) (JUNCTIONS 16 AND 16A
IMPROVEMENT REALIGNMENT AND SLIP
ROADS) (SIDE ROADS) ORDER 202-**

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose to make the following Orders—

1. An Order under section 10 of the Highways Act 1980 providing that:

- (1) a length of the trunk road, commencing at a point 291 metres south west of the centre point of the new roundabout (marked A on Site Plan A of the deposited plan), and extending north eastwards for a distance of 572 metres, to a point 293 metres north east of the centre point of the existing Junction 16 (Puffin Roundabout) (marked B on Site Plan A of the deposited plan);
- (2) a length of the trunk road commencing at a point 170 metres south west of the centre point of the new roundabout (marked C on Site Plan A of the deposited plan), and extending south westwards for a distance of 150 metres to its junction with the westbound carriageway of the trunk road at a point 277 metres south westwards of the centre point of the existing Junction 16 (Puffin Roundabout) (marked D on Site Plan A of the deposited plan);
- (3) a length of the trunk road, commencing on the westbound carriageway at a point 308 metres north east of the centre point of the new roundabout (marked E on Site Plan A of the deposited plan), and extending south westwards for a distance of 176 metres, to its junction with the new roundabout (marked F on Site Plan A of the deposited plan);
- (4) a length of the trunk road, commencing at a point 445 metres south west of the centre point of the existing junction with the Glan-Yr-Afon Road (marked A on Site Plan B of the deposited plan), and extending north eastwards for a distance of 798 metres, to a

ddwyrain am bellter o 798 o fetrau, hyd at bwynt 351 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd bresennol â Ffordd Glan-yr-afon (wedi ei farcio â B ar Blan Safle B y plan a adnewwyd);

- (5) darn o'r gefnffordd, sy'n dechrau ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain, wrth bwynt 107 o fetrau i'r de-orllewin o'r ffordd fynediad i Waith Trin Carthion Dŵr Cymru Cyfyngedig (wedi ei farcio ag C ar Blan Safle B y plan a adnewwyd), ac sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain am bellter o 198 o fetrau, hyd at ei chyffordd â ffordd gyswllt y drosgont aml lefel a ddisgrifir yn (6) isod (wedi ei marcio â D ar Blan Safle B y plan a adnewwyd);
- (6) darn o'r gefnffordd, sy'n dechrau ar ffordd gyswllt y drosgont aml lefel a ddisgrifir yn (6) isod (wedi ei marcio ag E ar Blan Safle B y plan a adnewwyd), ac sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain am bellter o 417 o fetrau hyd at y man lle mae'n cysylltu â cherbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd (wedi ei farcio ag F ar Blan Safle B y plan a adnewwyd);
- (7) darn o'r gefnffordd, sy'n dechrau ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin 228 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd bresennol â Ffordd Glan-yr-afon (wedi ei marcio ag G ar Blan Safle B y plan a adnewwyd), ac sy'n ymestyn tua'r de-orllewin am bellter o 293 o fetrau hyd at ei chyffordd â ffordd gyswllt y drosgont aml lefel a ddisgrifir yn (6) isod (wedi ei marcio ag H ar Blan Safle B y plan a adnewwyd);
- (8) darn o'r gefnffordd, sy'n dechrau ar ffordd gyswllt y drosgont aml lefel a ddisgrifir yn (6) isod (wedi ei marcio ag I ar Blan Safle B y plan a adnewwyd), ac sy'n ymestyn tua'r de-orllewin am bellter o 345 o fetrau hyd at y man lle mae'n cysylltu â cherbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd (wedi ei farcio â J ar Blan Safle B y plan a adnewwyd); a
- (9) darn o ffordd gyswllt trosgont aml lefel y gefnffordd, sy'n dechrau ar ochr ogledd-orllewinol strwythur trosgont y gefnffordd (wedi ei marcio ag L ar Blan Safle B y plan a adnewwyd), ac sy'n ymestyn tua'r de-ddwyrain am bellter o 60 metr hyd at ei chyffordd ar ochr dde-ddwyreiniol strwythur trosgont y gefnffordd â'r ffordd gyswllt

point 351 metres north east of the centre point of the existing junction with the Glan-Yr-Afon Road (marked B on Site Plan B of the deposited plan);

- (5) a length of the trunk road, commencing on the eastbound carriageway, at a point 107 metres south west of the access road to the Welsh Water Limited Sewage Treatment Works (marked C on Site Plan B of the deposited plan), and extending north eastwards for a distance of 198 metres, to its junction with grade separated overbridge link road described at (6) below (marked D on Site Plan B of the deposited plan);
- (6) a length of the trunk road, commencing on the grade separated overbridge link road described at (6) below (marked E on Site Plan B of the deposited plan), and extending north eastwards for a distance of 417 metres to its connection with the eastbound carriageway of the trunk road (marked F on Site Plan B of the deposited plan);
- (7) a length of the trunk road, commencing on the westbound carriageway 228 metres north east of the centre point of the existing junction with the Glan-Yr-Afon Road (marked G on Site Plan B of the deposited plan), and extending south westwards for a distance of 293 metres to its junction with the grade separated overbridge link road described at (6) below (marked H on Site Plan B of the deposited plan);
- (8) a length of the trunk road, commencing on the grade separated overbridge link road described at (6) below (marked I on Site Plan B of the deposited plan), and extending south westwards for a distance of 345 metres to its connection with the westbound carriageway of the trunk road (marked J on Site Plan B of the deposited plan); and
- (9) a length of the trunk road grade separated overbridge link road, commencing at the north western side of the trunk road overbridge structure (marked L on Site Plan B of the deposited plan), and extending south eastwards for a distance of 60 metres to its junction on the south eastern side of the trunk road overbridge structure with the new link road that will run along the south side of the trunk road between Junctions 16 and 16A

newydd a fydd yn mynd ar hyd ochr ddeheuol y gefnffordd rhwng Cyffyrdd 16 ac 16A (wedi ei marcio â K ar Blau Safle B y plan a adnewwyd);

i gyd yng Nghymuned Tref Penmaenmawr ym Mwrdeistref Sirol Conwy, yn dod yn gefnffordd o'r dyddiad y mae'r Gorchymyn yn dod i rym.

2. Gorchymyn o dan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a fydd:

(1) yn awdurdodi Gweinidogion Cymru -

- a. i wneud y gwaith o wella priffyrdd;
- b. i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
- c. i adeiladu priffyrdd newydd;
- d. i gau mynedfeydd preifat i fangroedd, ac
- e. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangroedd,

i gyd ar lwybr y gefnffordd newydd a grybwyllir uchod, neu yn ei gyffiniau; a

(2) i ddarparu ar gyfer trosglwyddo pob priffordd newydd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel yr awdurdod priffyrdd a bennir ar ei chyfer yn y Gorchymyn o'r dyddiad y bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ei bod wedi ei chwblhau a'i bod ar agor ar gyfer traffig trwodd.

Gellir edrych ar gopiâu:

- o'r Gorchymynion drafft a'r planiau cysylltiedig,
- o'r Datganiad Esboniadol a'r Hysbysiad Cyhoeddus,
- o'r Datganiad Amgylcheddol a Chrynodeb Annhechnegol,
- o'r Hysbysiadau Amgylcheddol,
- o'r Datganiad i Hysbysu Aseiad Priodol,
- o'r Adroddiad ar Aseiad Cyfnod 3 y Cynllun

yn rhad ac am ddim, o 23 Mawrth 2021 tan 7 Mai 2021 yn Canolfan Gymunedol Maen Alaw, Fforrdd Bangor, Penmaenmawr LL34 6LE.

Sylwer: Bydd mynediad i'r lleoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau COVID-19 perthnasol fydd ar waith ar y pryd. Yn sgil cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol COVID-19, dim ond drwy apwyntiad y gellir edrych ar gopiâu. Er mwyn trefnu i edrych ar y dogfennau, cysylltwch â Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd y Cynllun, Mike Gilbert ar y rhif ffôn symudol: 07840 330 238 neu drwy'r e-bost: A55J15J16@Ramboll.com.

(marked K on Site Plan B of the deposited plan).

all in the Community of the Town of Penmaenmawr in the County Borough of Conwy shall become a trunk road as from the date when the Order comes into force.

2. An Order under sections 12, 14, 125 and 268 of the Highways Act 1980 which will:

(1) authorise the Welsh Ministers -

- a. to carry out the improvement of highways;
- b. to stop up highways or areas of highways;
- c. to construct new highways;
- d. to stop up private means of access to premises, and
- e. to provide new means of access to premises,

all on, or in the vicinity of the route of the new trunk road aforesaid; and

(2) to provide for the transfer of each new highway to Conwy County Borough Council as highway authority specified for it in the Order as from the date the Welsh Ministers notify Conwy County Borough Council that they have been completed and are open for through traffic.

Copies of the :

- draft Orders and accompanying plans,
- Explanatory Statement and Public Notice,
- Environmental Statement and a Non-technical Summary,
- Environmental Notices,
- Statement to Inform an Appropriate Assessment
- Stage 3 Scheme Assessment Report

may be inspected free of charge, from 23 March 2021 until 7 May 2021 at the Maen Alaw Community Centre, Bangor Road, Penmaenmawr LL34 6LE.

Please note: Access to these venues will be subject to the relevant COVID-19 restrictions in place at the time. Due to COVID-19 social distancing restrictions, inspection of the documents will be by prior appointment only. To arrange to inspect the documents, please contact the Scheme Public Liaison Officer, Mike Gilbert on mobile telephone: 07840 330 238 or email: A55J15J16@Ramboll.com.

Anyone unable to access the Orders digitally or visit the deposit locations should contact the Scheme Public Liaison Officer to make alternative arrangements.

Dylai unrhyw un nad yw'n gallu cyrchu'r Gorchmynion yn ddigidol neu nad yw'n gallu ymweld â'r lleoliadau adneuo gysylltu â'r Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd i wneud trefniadau amgen.

CAIFF UNRHYW BERSON, heb fod yn hwyrach na 7 Mai 2021, wrthwynebu i'r Gorchmynion gael eu gwneud drwy hysbysu: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1420023 a chan ddatgan ar ba sail y gwneir y gwrthwynebiad. **Sylwer:** Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, bydd y tîm prosiect yn ystyried eich gohebiaeth ac efallai y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses hon caniateir i ni drosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion a godwyd. Pan fo cynllun cefnffordd yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), caiff pob gohebiaeth ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd YC lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Llinell drafft, y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft a'r Hysbysiadau priodol ar <https://llyw.cymru/a55-cyffordd-16-ac-16A>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ANY PERSON may not later than 7 May 2021 object to the making of the Orders by notice to the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference qA1420023 and stating the grounds of objection. **Please note:** Should you wish to object, support or make representations, your correspondence will be considered by the project team and we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of this process we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with the issues raised. Where a trunk road scheme becomes the subject of a Public Inquiry (PI), all correspondence is copied to the Inspector of the Inquiry and is kept in the PI Library and is publicly available. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local PI, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the draft Line Order, draft Side Roads Order and the respective Notices can be viewed at <https://gov.wales/a55-junctions-16-and-16A>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government